# CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU

## DYDD LLUN, 16 IONAWR 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** D.M. Jenkins (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
J. Gravelle, Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw;
A Thomas, Rheolwr Budd-daliadau a Threth Y Cyngor
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

1. **DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

2. **COFNOD PENDERFYNIADAU - 12 RHAGFYR 2016**
**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 12 Rhagfyr, 2016 yn gofnod cywir.**

3. **ADRODDIAD NAD YDYW I'W GYHOEDDI**
**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

4. **Y DRETH GYNGOR – GOSTYNGIADAU YN ÔL DISGRESIWN**
**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, peidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**
**Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion oedd yn agored i dalu'r Dreth Gyngor. Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth ariannol gyfrinachol nad oedd yn eiddo i'r cyhoedd ac na fyddai'n cael ei datgelu fel rheol i drydydd partïon. Felly, ar ôl cloriannu'r mater, yr oeddid yn barnu bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**
Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar gais oedd wedi dod i law am ostyngiad yn ôl disgresiwn o ran y Dreth Gyngor.
Nodwyd bod rheoliadau wedi eu cyflwyno, gan ddod i rym ym mis Ebrill 2004, a roddai bwerau disgresiwn i Awdurdodau Lleol roi disgownt neu ostyngiad a benderfynwyd yn lleol o ran y Dreth Gyngor, a bod y rhain yn ychwanegol at y gostyngiadau statudol presennol.
**PENDERFYNWYD, yn achos cais cyfeirnod 60299317, y byddai'r tâl eiddo gwag o 50% yn cael ei hepgor am y 6 mis rhwng 20 Chwefror 2016 ac 20 Awst 2016.**